Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

22.03.24

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Ar ddiwedd tymor prysur iawn, yn llawn gweithgareddau amrywiol, ga i fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi gyd fel rhieni a gofalwyr am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol, er lles pob un o'n disgyblion, a hoffwn ddymuno Pasg hapus a diogel i chi gyd. Hoffwn eich hysbysu y byddwn yn **ail ddechrau ar ddydd Llun yr 8fed o Ebrill i bob disgybl**.

Mae ein disgyblion, unwaith eto, wedi serennu ar lwyfannau'r Eisteddfodau Sir amrywiol dros yr wythnosau diwethaf yn arwain at nifer fawr o berfformiadau cofiadwy. Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth gystadlu a chynrychioli'r ysgol a dymuniadau gorau i bawb sydd yn rhan o'r 13 eitem wahanol sydd wedi llwyddo i gyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod eleni. Cafwyd Eisteddfod ysgol hwylus iawn, yn llawn hiwmor, yn ogystal â dwy seremoni gadeirio i feirdd yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr i Lola-Mai Reynolds-Berry o Flwyddyn 7 am ennill Cadair CA3 ac i Lottie Allen am ennill y wobr Saesneg ar gyfer CA3. Gwych oedd gweld teilyngdod ym mhrif gystadleuaeth Cadeirio Bryn Tawe 2024, gyda Jonah Eccott yn ennill y Gadair a Jacob Elsey yn ennill y wobr Saesneg. Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth gystadlu mor wych.

Yn ogystal, mae nifer o lwyddiannau o'r meysydd chwarae, gyda thîm rygbi bl.8 yn ennill cwpan rygbi Ysgolion Abertawe, am yr ail flwyddyn yn olynol. Roedd yn hyfryd dymuno'n dda i ddisgyblion Bl.10 ac 11 sydd wedi teithio i Dubai ar daith chwaraeon dros y Pasg - siwrnai ddiogel a llwyddiannus i chi gyd!

Hoffwn estyn diolch arbennig i ddau aelod o staff sydd yn ein gadael ni ar ddiwedd y tymor yma. Diolch mawr a dymuniadau gorau i Mr Steffan Davies, sydd yn ymuno ag Ysgol Maes-y-Gwendraeth ac hefyd i Miss Gwen Shenton, sydd yn newid gyrfa ac yn ein gadael ar ddiwedd mis Ebrill. Diolch yn fawr iawn am eu gwaith.

Gydag wythnosau prin cyn yr arholiadau allanol, ga i eich annog fel rhieni a gofalwyr i **gefnogi eich plentyn i adolygu'n drylwyr** ar gyfer her yr arholiadau yma, sydd yn allweddol ar gyfer eu hyder! Bydd eu cefnogi i greu amserlenni adolygu, eu hannog i ddyfalbarhau, eu cefnogi yn emosiynol, rheoli eu hamser hamdden ac ar sgrîn, yn sicrhau eu bod yn derbyn digon o gwsg ac yn bwyta'n iach, yn gamau pwysig i ganiatáu eich mab neu ferch i berfformio o'u gorau dros yr wythnosau nesaf.

Mae yna gefnogaeth **strategaethau adolygu** ar gael yn TEAM blynyddoedd 10-13 - ewch i TEAM cyffredinol y flwyddyn ac i'r adran 'Ffeiliau - Adolygu Cyffredinol' er mwyn dod o hyd i'r adnoddau. Bydd athrawon gwahanol yn cynnal sesiynau adolygu byw yn yr ysgol ac yn rhithiol ar gyfer disgyblion fydd yn sefyll arholiadau eleni. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r rhain (amserlen yn Teams ac ar wefan yr ysgol). Ga i ofyn i chi eu hannog i fynychu'r cyfleoedd gwerthfawr yma. Mae yna adnoddau adolygu defnyddiol hefyd ar gael ar wefan yr ysgol: https://www.bryntawe.swansea.sch.uk/parent-info_cy.php#revision

Mae'r **arholiadau allanol TGAU yn dechrau ar ddydd Iau 09.05.24**, gyda rhai **Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yn dechrau ar ddydd Llun 13.05.24**. Fe ddylai eich plentyn fod wedi derbyn copi caled o'u hamserlen bersonol ar gyfer yr arholiadau heddiw a bydd copi yn cyrraedd drwy gyfrif e-bost HWB eich plentyn, yn ogystal â'r e-bost personol sydd gennym ni ar eich cyfer chi hefyd. Bydd angen sicrhau eu bod ar gael i **sefyll arholiad hyd at ddiwedd y cyfnod ar y 26.06.24.**

Yn ogystal, bydd **disgyblion blynyddoedd 7-9** yn sefyll **Asesiadau Personol (Cymraeg a Saesneg) a Rhifedd Cenedlaethol** yn ystod y tymor nesaf a byddwn yn ysgrifennu atoch gyda manylion llawnach yn

agosach at yr amser. Yn y cyfamser, gweler adnoddau i gefnogi gyda pharatoi yma: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/asesiadau-darllen-a-rhifedd/asesiadau-personol-gwybodaeth-i-rieni-a-gofalwyr/

- **Blwyddyn 9 rhwng y 15-19/04/24;**
- **Blwyddyn 7 rhwng yr 22-26.04.24;**
- **Blwyddyn 8 rhwng y 29.04-03.05.24.**

Diolch i **rieni blwyddyn 9** am gefnogi eich plentyn wrth ddewis eu hopsiynau ar gyfer eu cyrsiau TGAU. Byddwn yn rhannu'r colofnau terfynol yn gynnar ar ddechrau'r tymor nesaf. Braf yw nodi bod canran uchel o'r disgyblion yn gallu astudio eu 3 opsiwn dewisol, gyda phawb yn gallu dewis o leiaf 2 allan o'u 3 prif ddewis. Byddwn yn cynnal cyfweliadau cynghori disgyblion sydd ddim yn derbyn pob dewis, yn ogystal â rhai fyddai'n elwa o ystyried y dewisiadau mwyaf addas ar eu cyfer nhw yn gynnar yn ystod tymor yr Haf. Wrth gwrs, byddwn yn eich cynnwys chi, ein rhieni a'n gofalwyr, yn y broses bwysig yma. Bydd cwblhau'r broses yma yn ein caniatáu i **ddechrau ar y cyrsiau TGAU gyda disgyblion blwyddyn 9 yn syth ar ôl hanner tymor Sulgwyn, ar ddydd Llun y 6ed o Fehefin**.

Diolch eto i'n rhieni sydd yn sicrhau bod eu **plentyn yn cydymffurfio gyda'n disgwyliadau elfennol, sy'n allweddol i safonau ymgysylltiad, ymddygiad, ymdrech ac agwedd at ddysgu disgyblion.**

- **Gwisg:** heb os, gwelwn gysylltiad cyson rhwng disgwyliadau gwisg bersonol â chynnydd, ymddygiad a chyfraniad disgyblion yn yr ysgol. Os oes unrhyw amheuaeth gennych am ein **disgwyliadau gwisg ac ymddangosiad**, gweler y manylion yma ar ein safwe.
- **Ffonau symudol:** mae angen bod eich plentyn yn gallu canolbwyntio mewn gwersi er mwyn dysgu'n effeithiol ac felly mae diffodd ffonau yn rhoi cyfle gwych i osgoi unrhyw wrthdyniad mewn gwersi. Mae'r manteision i les eich plentyn hefyd i beidio â dibynnu ar hysbysiadau parhaus apiau amrywiol eu ffôn yn caniatáu iddynt ymlacio a mwynhau bywyd ysgol iach gyda'u ffrindiau. Mynnwch eu bod yn diffodd eu ffôn tra yn yr ysgol - mae manylion ein polisi ffôn yma.
- **Offer:** mae cannoedd o'n disgyblion ardderchog ni, o ran eu hagwedd at ddysgu a datblygu annibyniaeth, o hyd yn 'barod i ddysgu' drwy gymryd cyfrifoldeb am eu hoffer dysgu eu hunain. Gweler y ddolen yma am fanylion.

Cofiwch, rydym yn barod iawn i gefnogi unrhyw ddisgybl gydag anawsterau gwisg neu offer. Plîs cysylltwch gyda Mrs Emma Howells, Pennaeth Cynorthwyol sydd yn gyfrifol am gymuned yr ysgol (HowellsE32@hwbcymru.net), neu Rheolwraig Busnes yr ysgol, Mrs Eirian Leonard (LeonardE18@hwbcymru.net) i drafod ymhellach.

Os oes unrhyw gwestiwn pellach gennych ynglŷn â'r uchod, neu unrhyw fater arall yn ymwneud ag addysg eich plentyn, cysylltwch â ni yn yr ysgol.

Yn ddidwyll,

Simon Davies

Pennaeth
DaviesS456@hwbcymru.net